Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** Gweithiwr Cymdeithasol – Tîm 14+

**Lleoliad:** Gweithiwr Ystwyth

**Cyfarwyddiaeth:** Gwasanaethau Cymdeithasol

**Swydd Rhif:** BG12346

**Cyflog:** Gradd 8 (£39,513 - £43,693 y flwyddyn)

**Oriau:** 37 awr yr wythnos

**Contract:** Parhaol

## Crynodeb Swydd

Dewch i ymuno â thîm angerddol sydd wedi sefydlu'n dda ac sy'n ymroddedig i wella deiliannau a chyfleoedd ar gyfer pobl ifanc Blaenau Gwent.

Bydd y Tîm 14+ yn cynnig cyfle i chi weithio gyda phobl ifanc 14 oed a throsodd sydd angen gofal a chymorth, angen eu hamddiffyn, sy'n derbyn gofal a/neu'n ymadael â gofal. Mae'r swydd yn rhoi cyfle i ddatblygu eich sgiliau, gwybodaeth ac ymarfer yng nghyswllt pobl ifanc ar draws pob math o ymyriadau statudol yn cynnwys asesiad, cynllunio gofal, cynllunio hirdymor, cynllunio llwybr a phontio i fywyd fel oedolion.

Cewch gyfle i reoli llwyth achos amrywiol gyda ffocws ar yr hyn sy'n bwysig i bobl ifanc a theuluoedd, gan adeiladu ar a chefnogi pobl ifanc i ddynodi eu cryfderau ac adnoddau eu hunain, rheoli risg ar y cyd gyda gweithwyr aml-asiantaeth yn ogystal ag annog datblygu sgiliau annibyniaeth.

## Hysbyseb Lawn

Rydym yn edrych am weithiwr cymdeithasol brwdfrydig, egnïol a gyda chymhelliant uchel i ymuno â'n Tîm 14+. Croesawn geisiadau gan weithwyr cymdeithasol profiadol, gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a myfyrwyr gwaith cymdeithasol (yn disgwyl cymhwyster).

Mae'r swydd yn gyfle cyffrous i weithio gyda phobl ifanc fel rhan o dîm amrywiol yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymorth, swyddogion cyfryngu a chynghorwyr personol gadael gofal. Gydag aelodau hirsefydlog o'r tîm, mae cyfle i ddysgu o brofiadau'r tîm sy'n ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd uchaf i bobl ifanc a theuluoedd Blaenau Gwent.

Sylweddolwn yr angen am gymorth staff wrth weithio gyda phobl ifanc a all fod ag anghenion cymorth penodol ac felly bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn manteisio o hyfforddiant a chyfleoedd datblygu, sesiynau goruchwylio ffurfiol misol (yn fwy aml os oes angen), sesiynau goruchwylio grŵp a mynediad i ymgynghoriadau seicolegol ar gyfer cyngor ac arweiniad ymarfer. Sylweddolwn bwysigrwydd cefnogaeth cymheiriaid ac mae sefydlogrwydd y tîm wedi galluogi datblygu moeseg tîm cryf sef cydweithio i ddatrys problemau yn effeithlon, cymell ac annog ein gilydd.

Cafodd swyddfa'r tîm 14+ ei hailwampio'n ddiweddar i greu gofod dan do ac awyr agored sy'n hyrwyddo gwaith grŵp a datblygu sgiliau byw annibynnol. Rydym eisiau cynnig gofod diogel i bobl ifanc ddysgu sgiliau newydd ac i'r holl staff 14+ fod â rhan wrth ddarparu ffyrdd unigryw a chreadigol o ymgysylltu pobl ifanc i hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

Mae cyfleoedd cyffrous ar gael i'r tîm sy'n galluogi ac yn annog creadigrwydd yn sut y gallwn gyflawni anghenion ein plant hŷn sy'n derbyn gofal a'n hymadawyr gofal drwy ddefnyddio grant Dydd Gŵyl Dewi. Mewn blynyddoedd diweddar mae hyn wedi cynnwys cyfle i staff gynllunio a hwyluso gweithgareddau ar gyfer ein pobl ifanc yn cynnwys trip preswyl.

Os ydych yn angerddol am bobl ifanc, hyrwyddo eu llais a darparu gwasanaeth sydd â ffocws ar ddeilliannau a chryfderau, yna bydd hyn yn gyfle gwerth chweil a chyffrous i chi.

Os hoffech drafod y cyfleoedd hyn yn anffurfiol, mae croeso i chi gysylltu â Beth Thomas, Rheolwr y Gwasanaeth, ar 01495 369554. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

I fod yn gymwys am y swydd hon mae'n rhaid i bob ymgeisydd fod â gradd (neu debyg) o fewn maes Gwaith Cymdeithasol a bod wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Mae angen mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith.**

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd lenwi cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.**

Mae angen cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan gategori Rheolwyr Gofal Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer y swydd hon a bydd angen cofrestru cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ddilynol **https://socialcare.wales**

Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.**

**Dyddiad Cau 27/03/2025**

**Dyddiad Cyfweliadau 09/04/2025**